PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 27 Gorffennaf 2, 2026 50c.

## Twr yn y Tŵr

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn ystod cyfnod o dywydd crasboeth mis Mehefin yng ngwesty'r Tyrau Abertawe. Diolch i'r drefn roedd awyru effeithiol yn y gwesty a oedd yn ein gwarchod rhag effeithiau gwaethaf y dymheredd anarferol. Ond roedd camu allan o'r llety i'r awyr agored fel myned i mewn i ffwrn dân. Rhagflas yw'r erthygl hon o'r hyn ddigwyddodd yn yr Undeb ac fe fydd rhagor o ddeunydd yn ymddangos yn *Y Tyst* yn ystod yr wythnosau nesaf a fydd yn rhoi darlun llawnach o gynnwys yr anerchiadau, y trafodaethau a'r cyfarfodydd.



Hoffwn ar y dechrau'n deg ddiolch i bawb fu'n gyfrifol am drefnu'r holl weithgareddau, o staff yr Undeb i'r pwyllgor lleol o dan gadeiryddiaeth Fiona Gannon. Rhedodd y cwbl yn esmwyth o'r lleoliad, y llety, y cyfarfodydd arbennig, y bwyd, y darlledu a'r cludiant. Er nad yw'r Undeb yn ddigwyddiad mor fawr ac y bu, eto, y mae llawer o drefniadau i'w gwneud o flaen llaw. Diolch o galon am y croeso ac am ddarparu mor wych ar gyfer y cynadleddwyr.



### Dydd Mercher

Fe'n croesawyd i gyd yn gynnes ar ddechrau'r gynhadledd (24/06) gan y Llywydd y Parchg Owain Llŷr Evans. Diolchwn i Owain am ei lywyddiaeth bwrpasol, trefnus a hwyliog a barodd ein bod yn dilyn yr amserlen yn fanwl. Yna, cychwynnodd y cwbl, fel y dylid, gydag astudiaeth feiblaidd a defosiwn o dan arweiniad y Parchg Beti-Wyn James, Caerfyrddin. Ysbrydolwyd ei myfyrdodau gan ein lleoliad sef gwesty'r Tyrau sydd â thŵr mawr urddasol y tu allan. Aeth â ni i ystyried arwyddocâd tŵr Babel yn Genesis 11:1—9. Gobeithiwn gynnwys crynodeb o'i dau fyfyrdod yn fuan yn *Y Tyst*.

Bu 3 chyfarfod cyhoeddus arall ar y dydd Mercher. Yn gyntaf, cyflwynodd yr Athro Prys Morgan ddarlith 'Annibynia yn ei grym: Thomas Rees, Abertawe.' Dywedodd bod T. Rees yn un o gewri anghofiedig ymneilltuaeth yng Nghymru. Yr ail oedd cyfarfod y Rhwydwaith Heddwch ble traddododd y Prifardd Mererid Hopwood ddarlith yn dwyn y teitl 'Yr un yw baich gwerin byd. Cofio Waldo.' Gwnaeth hyn yn ei ffordd ddihafal ei hun yn llawn egni ac ysgolheictod. Yna yn drydydd, aethom i gapel enfawr y Tabernacl, Treforys ar gyfer Cyngerdd Dinas Noddfa a hynny mewn gwres aruthrol. Cymerwyd rhan gan bobl leol yn cynnwys rhai o gymuned yr ymgeiswyr lloches. Cawsom gyfle i ddathlu gyda'n gilydd amrywiaeth y ddynoliaeth mewn undod fel pobl a grëwyd gan Dduw.

### Dydd Iau

Bu dydd Iau yn llawn hyd yr ymylon gyda gweithgareddau. Cafwyd adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Elinor Wyn Reynolds, a oedd yn llawn gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ac adroddiad y Trysorydd Geraint Rees a bwysleisiai'r angen i ddefnyddio'r arian mewn ffordd fydd yn gwneud ein tystiolaeth yn berthnasol i'r oes bresennol. Buom yn trafod busnes, materion yn ymwneud â hyfforddiant ac yn pleidleisio dros gynigion.





Yn dilyn hyn cafwyd dau gyfarfod cyhoeddus. Yng nghyfarfod y Gymdeithas Hanes traddododd y Prifardd Tudur Dylan ddarlith ar 'Arglwydd y

*parhad ar dudalen 2*

# Twr yn y Tŵr – *parhad*

Cwm ... Golwg ar fywyd a gwaith Eifion Wyn 1867–1926.' A chyda'r nos aethom i gapel eiriasboeth y Nant ar gyfer oedfa o fawl. Llywyddwyd gan y Parchg Owain Llŷr Evans a chymerwyd rhan gan Nel Richards a'r Parchedigion Gareth Morgan Jones a Jill-Hailey Harries. Traddododd y Parchg Dylan Rhys Parry, Pen-y-bont ar Ogwr bregeth yn dwyn y teitl 'Prism Gras Duw'.

### Dydd Gwener

Agorwyd gweithgareddau'r dydd Gwener gyda defosiwn o dan arweiniad Cyfundeb Gorllewin Morgannwg. Cafwyd darlleniad o'r Beibl a gweddi gan y Parchg Rhys Locke, myfyrdod gan y Parchg Gareth Morgan Jones a deuawd gan Rhys a Siân Meinir. Yna, cafwyd lansiad rhagorol ymgyrch Glandeg gan y Rhwydwaith Merched wedi'i arwain gan Siân Meinir, y Parchg Mererid Mair a'r Parchg Jill-Hailey Harries.

Daeth y gweithgareddau i ben gydag Oedfa'r Llywydd. Llywyddwyd gan Jean Lewis a chafwyd perfformiad gan Brigyn cyn i'r Parchg Owain Llŷr Evans draddodi anerchiad y Llywydd a oedd yn llawn gwreiddioldeb a sylwedd. Bydd crynodeb o'r anerchiad yn fuan yn *Y Tyst*.

Diolch hefyd i'r rhai fu'n gyfrifol am ffrydio'r cyfarfodydd yn fyw ar sianel Youtube yr Undeb.

## Panel Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr

**ARWYN OWEN HUGHES**
Llithfaen

**SIAN MEINIR**
Penarth

Hyfrydwch yw nodi fod y ddau fyfyriwr uchod wedi cwblhau cwrs academaidd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar gyfer y weinidogaeth ordeiniedig, ac yn agored i dderbyn galwad oddi wrth yr eglwysi.
I dderbyn eu manylion cyswllt, neu am fwy o wybodaeth, cysyllter â'r Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu, sef y Parchg Carwyn Siddall:
07732974819
carwyn@annibynwyr.cymru

Dymunwn fendith Duw ar y ddau ohonynt.

# Y Tasglu yn trefnu taith i'r ogof

Yn ddiweddar gwelwyd pererinion yn mynd am dro i fwrw golwg ar Ogof Dangraig ar lan afon Cleddau Ddu yng nghwm Rhydwilym ar ochr Sir Benfro o'r afon. Diolch i'r pedwar fodlonodd i gymryd rhan mewn oedfa fyrfyfyr ar y llwybr uwchben yr ogof. Canwyd 'Calon Lân' gan y gynulleidfa o 14 i derfynu.

Tebyg na chynhaliwyd oedfa grefyddol yno ers diwedd yr ail ganrif ar bymtheg pan oedd yna gryn erlid ar Gristnogion oedd am dorri'n rhydd o grafangau'r eglwys wladol. Pwy a ŵyr beth all ddeillio o hyn?

Trefnwyd y daith gan Tasglu Cristnogol Sir Benfro fel dilyniant i'r oedfa adnewyddiad a gynhaliwyd yng nghapel Rhydwilym dro yn ôl pan gafwyd anerchiad gan Ifan Tregaron. Roedd yna unigolion ar y daith oedd â mwy o ddiddordeb yn yr ongl dreftadaeth na'r ongl grefyddol. Ond mae'n bosib priodi'r ddau.

Rhaid diolch i'r rhai a'm cynorthwyodd i gynnal oedfa – Peter Spriggs, Ithel Parri-Roberts a'r codwr canu, Cleif Harpwood. Trueni na fyddem wedi trefnu i recordio'r fath oedfa hanesyddol. Braf gweld dau o addolwyr cyson capel Rhydwilym yn ein plith. Hefyd y prifardd Hywel Meilyr sydd wedi derbyn comisiwn i gyfansoddi cerdd yn seiliedig ar afon Cleddau a wêl olau dydd tua diwedd y flwyddyn. Ac ymhell cyn hynny edrychwn ymlaen at weld rhai o'r lluniau a dynnwyd gan y ffotograffydd adnabyddus, Ray Hobbs, sy'n ymhél â phrosiectau treftadaeth.

Mae'r ymadrodd 'oedfa fendithiol' yn cael ei orddefnyddio bellach. Ond hwyrach y byddai hynny'n ddisgrifiad cywir o'r prynhawn dreuliasom yng nghwmni ein gilydd. Doedd dim angen poeni am y gwybed. A darganfyddiad rhyfeddol arall, yn ôl un o'n plith, oedd presenoldeb math prin iawn o gorryn – ac roedd e'n un mawr – *Meta menardi* yn yr ogof. Felly, prynhawn i naturiaethwyr, haneswyr treftadaeth a Christnogion.

**Hefin Wyn**




## Sul Sbesial Cyd-enwadol

Dewch i gyd-addoli mewn
Oedfa Gyfoes yn
Hope-Siloh, Pontarddulais, SA4 8SY

Gorffennaf 12fed 2026
Am 10:30yb
Oedfa dan arweiniad
Siân Wyn Rees (Cymdeithas y Beibl)

Gyda Ysgolion Sul Sir Gaerfyrddin
Band y Diarhebion yn arwain y Gân

Dished a chyfle i gymdeithasu wedi'r oedfa.

**Croeso cynnes i bawb**



Yr Adran Gydenwadol

2 Gorffennaf 2026
Rhifyn 279

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Daeargryn Venezuela:

## *neges gan Mari Tutesigensi*

Annwyl ffrindiau yn yr enwadau yng Nghymru,

Bûm yn siarad gyda Carlos E. Mejia, Pennaeth Effaith/ Impact Cymorth Cristnogol yn America Ladin a'r Caribî, sydd yn arwain ar y gwaith cydlynu gyda'n partneriaid yn Venezuela yn dilyn y ddau ddaeargryn dinistriol nos Fercher.

"Mae angen mawr am bethau sylfaenol fel blancedi, tyweli, citiau hylendid, dŵr, bwyd, a chymorth seicolegol," meddai. "Mae pobl yn delio â cholled fawr, wedi colli anwyliaid, cartrefi, pob dim o fewn eiliadau... Nid ydych yn bell oddi wrthym. Mae'r byd hwn yn perthyn i bob un ohonom. Dyma'r amser i roi ein dinasyddiaeth fyd-eang ar waith. Rwy'n annog pobl Cymru, fel yr wyf yn annog pobl ym mhobman, i weithredu fel dinasyddion y byd heddiw wrth i ni gofio ein brodyr a'n chwiorydd yn Venezuela."

Mae ein partneriaid ffydd yn Venezuela eisoes yn yr ardaloedd a gafodd eu taro waethaf. Rydym yn rhyddhau cyllid brys fel eu bod yn gallu darparu dŵr glân, bwyd, pecynnau iechyd a lloches i deuluoedd sydd wedi colli popeth. Ac rydym yn apelio am gefnogaeth bellach i rymuso eu hymateb dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf a chefnogi teuluoedd sydd wedi colli popeth:

https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/venezuela-earthquake-appeal

Byddwn yn ddiolchgar os medrwch chi roi '*like*/calon' a rhannu'r postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, a'u rhannu yn eich e-newyddion ayb. dros y dyddiau nesaf, fel ein bod yn gallu cyrraedd ein rhwydweithiau yng Nghymru yn llawn:

https://www.facebook.com/ChristianAidCymru/

A wnewch ymuno â ni mewn gweddi dros bawb sydd wedi'u heffeithio, ein staff a'n partneriaid wrth iddyn nhw gydlynu ein hymateb i sefyllfa mor gymhleth? Bydd pob gweddi a phob rhodd yn cynnig gobaith i bobl sydd wedi'u taro gan drychineb.





**Wrth i'r ddaear ysgwyd**
**a chartrefi ddymchwel yn llwch,**
**cydia yn ein calonnau, Arglwydd.**

**Wrth i ôl-gryniadau achosi i'r ofn barhau,**
**cydia yn ein calonnau, Arglwydd.**

**Wrth i alar ysgwyd teuluoedd i'r byw,**
**cydia yn ein calonnau, Arglwydd.**


**Anfon ein dwylo a'n traed i gynorthwyo mewn unrhyw ffordd wrth i'n brodyr a'n chwiorydd fyw drwy hyn yn Venezuela.**

**Boed i ni, Arglwydd, ymateb mewn ffordd sydd yn cydweddu â'th ras a'th gariad di. Amen**



# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




**Codi'r Llen 29**

## Ymson Dina

Fe wyddoch fy enw, ond wyddoch chi ddim o fy stori'n gyflawn oherwydd mai rhywrai eraill a'i hadroddodd. Heddiw, gadewch i mi siarad.

Merch oeddwn i a feiddiodd gamu allan. Ro'n i eisiau gweld a doedd dim ofn arna i. Es i ddim i chwilio am drwbwl a doedd dim dyhead ynof i dynnu nyth cacwn i fy mhen. Ac yn sicr, do'n i ddim yn haeddu'r hyn ddigwyddodd.

Os gwyddoch chi am bwysau cledr llaw ddiwahoddiad ar eich croen, fe wyddoch ychydig am fy mhrofiad. Os gwyddoch chi am hyrddiadau geiriau hyll yn eich brifo, fe wyddoch ryw fymryn am fy mhoen. Os gwyddoch chi am gamddefnyddio grym gwenwynig, yna fe wyddoch sut y gall person gael ei lorio gan greulondeb.

Y ferch a geisiodd ddweud 'na' a chael ei hanwybyddu, gwelaf di.

Pob person sy'n beio'i hun oherwydd bod rhywun arall wedi dewis llwybr trais, gwelaf dithau.

Pob goroeswr sydd wedi gorfod gwylio eraill yn trin a thrafod yr effeithiau hirdymor a neb yn holi sut y maent yn teimlo, fe'th welaf.

Wedi'r treisio, roedd gan nifer gymaint i'w ddweud. Bu dynion yn dadlau, yn ceisio gwneud synnwyr o bethau. Tawel oedd fy nhad. Roedd fy mrodyr yn gandryll. Ond ble roedd y cwestiwn y dylid bod yn ei ofyn, yr un pwysicaf?

'Dina, sut wyt ti?'

Doedd neb yn gofyn hyn. Efallai'n wir mai dyma'r peth anoddaf: cael eich anwybyddu, a hynny o fewn y dolur ei hun. Mae rhai merched heddiw'n dal i orfod ymdopi â bod yn anweledig. Eisteddant mewn swyddfeydd, mewn eglwysi, ysgolion, a chartrefi. Ceisiant ddweud eu stori, ond cânt eu hamau neu eu cywiro. Weithiau, byddant yn cario cyfrinach am flynyddoedd maith. Ambell dro, bydd pawb yn dadlau amdanynt a hwythau yno, yn y fan a'r lle. Ond cofia hyn:

- rwyt ti'n fwy na'r peth gwaethaf sydd wedi digwydd i ti;
- nid yw dy urddas wedi'i gipio oherwydd y drwg yn rhywun arall;
- nid cam gwag rhywun arall sy'n peri i ti syrthio;
- rwyt ti'n werthfawr, er y boen.

Nid peth newydd yw trais o'r math hwn. Mae'n bod ers canrifoedd maith. Cofiwn fod dewrder hefyd yn bodoli ers miloedd o flynyddoedd. Bob tro y bydd menyw'n codi ei llais ac yn rhannu'r gwir, bydd dewrder yn siarad. Bob tro y bydd menyw arall yn ei chredu, bydd dewrder yn tyfu. Bob tro y bydd cyfiawnder yn cario'r dydd, bydd dewrder yn esgyn fry a'i adenydd ar led.

Wedi'r treisio, roedd fy nheulu'n wyllt gan gynddaredd. Ond nid enillir dim drwy ddial. Ni ddaw i neb ddoe yn ôl, ac ni ddaw unrhyw dda ychwaith o ddewis arf creulondeb.

Bydd rhai'n tybio mai dicter uchel ei lef sy'n gwella clwyfau tawel. Ond bydd hedyn gwellhad yn cael ei blannu pan fydd goroeswyr yn cael rhannu eu storïau, pan fydd cymunedau'n cysgodi'r gwan, a phan gaiff y diniwed eu hamddiffyn.

Peidiwch, da chi, â chofio'r trais yn fy erbyn yn unig, ond yn hytrach cofiwch am fy enaid. Dyna lle mae fy rhuddin, canolbwynt fy hunaniaeth. Efallai y bu'n rhaid i mi aros, ar hyd y canrifoedd, i'm llais gael ei ryddhau a chael gwrandawiad. Ti, y funud hon, yw'r person sy'n fy nghlywed. Felly, os wyt ti'n cario creithiau o unrhyw fath, clyw fy ngeiriau:

- dwyt ti ddim wedi dy anghofio;
- dwyt ti ddim yn unig;
- mae dy ddagrau'n cyfrif
- a'th stori hefyd, yn union fel fy stori innau.

**Holi**

- Yn Genesis 34 mae Dina yn dawel, tra mae pawb arall o'i chwmpas yn ei thrin a'i thrafod. A yw goroeswyr heddiw yn cael gwrandawiad teg? A sut allwn ni ddatblygu'r ddawn i wrando'n well?
- Mae stori Dina yn ein hatgoffa nad yw'r Beibl yn cuddio hanesion anghyfforddus. Ydy hi'n bwysig, yn eich barn chi, fod y Beibl yn cynnwys stori fel hon? Pam?
- Mae nifer fawr o bobl heddiw'n cario creithiau nad ydynt yn weladwy ar yr olwg gyntaf. Sut mae eich eglwys chi'n mynd ati i geisio'u hadnabod yn well?
- Hyd yn oed os nad oes gennych greithiau penodol, beth, yn eich tyb chi, fyddai Dina eisiau ichi ei ddeall a'i gofio?

**Gweddi**:
Dduw ein heiriolwr,
gwêl yr angen ym mhawb sydd
wedi eu brifo, eu llorio,
neu eu hanghofio.
Clyw ein cri, a rho ddoethineb inni
lefaru geiriau addas wrth godi ein
llais yn erbyn anghyfiawnder.
Dy bresenoldeb di sy'n ein cysgodi
a'n hymgeleddu.
Daw gobaith drwy dy gariad.
Boed i dy gyfiawnder adfer urddas,
i'th gariad chwyddo gobaith,
a'th bresenoldeb atgoffa pob un
ohonom ein bod yn arbennig
yn dy olwg. Amen.

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 5 Gorffennaf 2026**

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 5 Gorffennaf,**
**am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Sian Meinir

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 5 Gorffennaf am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Glyn Wise, Hen Golwyn a Betws-yn-Rhos

# Rhoda Evan, Kate Roberts, Eryn White a Rosa Hunt – merched y rhifyn diweddaraf o'r *Traethodydd*

Hanes aelod o Deulu Trefeca, sef Rhoda Evan, merch o blwyf Llanwynno, Morgannwg, yw thema prif ysgrif rhifyn Gorffennaf o'r *Traethodydd*. Eryn M. White sy'n adrodd ei stori, a thrwy hynny ddarlunio bywyd yn un o fentrau mwyaf diddorol y Fethodistiaeth gynnar, sef 'Y Teulu', neu'r gymuned Gristnogol hynod a sefydlwyd gan Howell Harris yn ei gartref yn Nhrefeca yn 1752. Ni ŵyr neb mwy nag Eryn am fywyd y Methodistiaid cynnar, yn enwedig y merched a gyfrannodd mor helaeth at lwyddiant y mudiad, a daw ei gallu i ysgrifennu'n afaelgar yn amlwg yn yr ysgrif gyfoethog hon. Bu farw Rhoda drwy anffawd drasig yn 1767 a hithau'n ddim ond 31 oed. Er gwaethaf y tristwch, anturiaeth a newydd-deb oedd nodweddion mwyaf amlwg y gymuned, fel y gwelwch o ddarllen y traethiad difyr hwn.

O droi o'r ddeunawfed ganrif at gyfnod nes atom, ceir ymdriniaeth hefyd â dau o lenorion mawr Cymru yr ugeinfed ganrif, sef Kate Roberts ac Emyr Humphreys. Yn adeiladu ar eu cyfrol *Dros Gymru'n Gwlad: Hanes Sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru* a adolygwyd yn rhifyn Ionawr o'r *Traethodydd*, mae Arwel Vittle a Gwen Angharad Gruffudd yn disgrifio ac yn dadansoddi ymwneud y nofelydd a'r storïwraig Kate Roberts â Phlaid Cymru. A hithau'n un o'i haelodau cynnar, arhosodd gyda'r Blaid ar hyd ei hoes er gwaethaf ei hanesmwythyd amlwg â rhai o'i hagweddau, yn arbennig erbyn canol y ganrif. Gwyddom lawer am fywyd a phersonoliaeth yr un a alwyd – yn ddigon anffodus erbyn hyn – yn 'frenhines ein llên', ac mae'r ysgrif hon yn ychwanegu at yr wybodaeth honno.

Un o ladmeryddion mwyaf Kate Roberts, yn enwedig yn saithdegau ac wythdegau'r ganrif o'r blaen, oedd Derec Llwyd Morgan. Er hynny, nid arni hi ond ar nofelydd cyfrwng-Saesneg mwyaf Cymru yr un cyfnod, Emyr Humphreys, yr ysgrifenna yma. Er i Kate fyw yn hen, cyrhaeddodd Emyr (a oedd yn iau na hi o ugain mlynedd) ei gant ac un, a nodi ailgyhoeddi diweddar ddetholiad o'i waith a ymddangosodd gyntaf yn 2009 a wna'r ysgrif 'Emyr Humphreys ac Amseroedd Cymru'. Er mai yn Saesneg yr ysgrifennai, darlunio bywyd Cymru Gymraeg yr ugeinfed ganrif a wnaeth Emyr, a hynny yn dreiddgar gofiadwy.

Dwy ysgrif, felly, ar ddau o'n nofelwyr mwyaf, ac mae'n fraint gan *Y Traethodydd* rhoi lle iddynt yn y rhifyn hwn.

Yn ogystal â'r uchod, ymdriniaeth John Gwilym Owen ac Aled Griffiths, cyn-ddarlithwyr yn Adran y Gyfraith, Prifysgol Bangor, â chymal iaith drwgenwog y Ddeddf Uno, 'utterly to extirp all and singular the sinister usages and customs differing from the same' (hynny yw, y Saesneg), yw thema'r ysgrif 'Y Gyfraith a'r Gymraeg'. Byth oddi ar i Saunders Lewis ddwyn sylw i'r cymal hwn yn ei ddarlith 'Tynged yr Iaith' yn 1962, bu'n rhan o fytholeg cenedlaetholdeb modern. Dadansoddiad mwy tyner sy gan yr awduron hyn ac un y tâl i ni i gyd roi sylw iddo.


Ynghyd â'r uchod, ceir ail ran ysgrif Rosa Hunt ar berthnasedd Credo Nicea i'r bywyd eglwysig cyfoes, a thri adolygiad: Cynfael Lake ar ddetholiad o *Gerddi Edward Moris*, y bardd o'r ail ganrif ar bymtheg; Dafydd Johnston ar gasgliad o ysgrifau llenyddol Dafydd Glyn Jones, *Tylwythau Llên*; a Rhys Llwyd ar gofiant diweddar Aled Eirug, *Dafydd Elis Thomas: Nation Builder*. Rhwng popeth, felly, dyma arlwy gyfoethog ar gyfer ein darllenwyr.

Dyma ni yn annog ffyddloniaid *Cenn@d* unwaith eto nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan: https://www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish (rhian.melhuish@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.


Dathlu cyfraniad

Y Traethodydd

yn Eisteddfod y Garreg Las




Am ganrif a thri chwarter a mwy mae'r Traethodydd wedi gwasanaethu diwylliant Cymru a'i llên. Dewch i babell Prifysgol Aberystwyth am 2 o'r gloch pnawn Mawrth 4 Awst i ddathlu parhad cylchgrawn llenyddol hynaf Cymru a chlywed **Eryn White** yn sôn am hanes cyhoeddi cylchgronau yn y Gymraeg a **Dylan Iorwerth** yn trafod eu dyfodol yn yr oes ddigidol. Trafodaeth fer a derbyniad i ddilyn.

**Pabell Prifysgol Aberystwyth**
**2 o'r gloch**
**Mawrth, 4 Awst**

YTraethodydd

# Ysbryd y tragwyddol Dduw, disgyn arnom ni

Bu sylwadau'r Golygydd yn yr erthygl, 'Ymestyn Allan', *Y Tyst*, 28 Mai yn ysgogiad i droi o'r newydd i Lyfr yr Actau ac at hanes y Pentecost rhyfeddol hwnnw geir ynddo. Diolch iddo am ei gymwynas.



### Cyd-destun Iddewig

Yr hyn a'm trawodd innau gyda rhyw newydd-deb bendithiol eleni oedd y ffaith mai Iddewon, rhai o dras ac eraill o fabwysiad, a gafodd yr apostolion yn gynulleidfa i gyhoeddi eu neges wrthi. 'Pobl dduwiol o bob cenedl dan y nef,' oeddent, crefyddwyr selog yr oedd dathlu'r Pentecost, y *Shavuot* Iddewig, yn bwysig iddynt, â hwythau bryd hynny, yn diolch nid yn unig am gynhaeaf y tir ond am gynhaeaf yr ysbryd yn ogystal, â chofio'n arbennig am roddi'r Gyfraith i Moses, gan Dduw.

### Selogion ffydd

Gwelir, felly, nad pobl ddifater ac anystyriol o faterion sylweddol bywyd oedd y rhain. Doedd dim unrhyw amheuaeth yn eu plith mai eiddo Duw, rhoddwr a chynhaliwr bywyd, awdur y Gyfraith oeddent, a byddent yn gyfarwydd â'r Ysgrythurau a ddyfynnwyd gan Pedr wrth iddo'u hannerch yn ystod y dydd. Beth wedyn, ynteu, a barodd bod y rhain wedi eu hysgwyd gymaint a'u moelyd mor llwyr gan yr hyn a glywsent eu cyhoeddi?

### Sioc neu ddwy

Yn gynnil, ac o dipyn i beth y datgela Luc wreiddyn eu hargyfwng. Tipyn o sioc a syndod iddynt, drigolion Jerwsalem oedd clywed, a deall Galileaid o bawb yn llefaru. Eu bod yn siarad am fawrion weithredoedd Duw roedd yn rhyfeddod pellach, a ffaith anodd iawn, os nad amhosibl iddynt, ei derbyn. Wedi'r cyfan, onid gwerin gwlad israddol i'w bychanu oedd y Galileaid iddynt hwythau, bobl Jwdea, rhywrai i'w hanwybyddu a'u bwrw o'r neilltu. I ychwanegu ymhellach at eu penbleth, oni soniodd Pedr wrthynt am 'Iesu o Nasareth', ie, Nasareth, Galilea, wrth gwrs, yr ofnai Nathanael (Ioan 1) na ddeuai dim da oddi yno, gan fynegi barn gyffredin Iddewon ei ddydd.

Am oleuni ar le a statws y Galileaid yn oes Iesu gweler anerchiad meistrolgar ac ysbrydoledig Guto ap Gwynfor o gadair yr Undeb, 2009, 'Rhodio Ffordd Iesu'r Galilead.' Ynddo pwysleisia, 'mai un o bobl y cyrion oedd Iesu, gyda'r Sefydliad gwleidyddol a chrefyddol oedd wedi ei ganoli yn Jerwsalem yn ymdrechu i'w danseilio, ac yn y diwedd ei ladd ... un a laddwyd fel troseddwr peryglus ar ben tomen sbwriel tu fas i furiau'r ddinas, a hynny o dan fendith y Torah: Gair sanctaidd Duw. Hwn yw Gwaredwr y Byd! Anhygoel – ond dyma ffordd Duw o weithredu.'

### Iesu'r Meseia

A dyma ddod at bwynt llorio'r gwrandawyr balch. 'Felly, gwybydded holl dŷ Israel yn sicr fod Duw wedi gwneud yn Arglwydd ac yn Feseia, yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi.' (Actau 2:36) Yn ei gyfrol, *Helaetha Dy Babell*, rhydd Vivian Jones ofod i sylw treiddgar yr ysgolhaig beiblaidd C. H. Dodd, wrth iddo drafod gwaith yr Arglwydd Iesu. I Dodd, pennaf tasg Iesu'r Meseia oedd 'rhyddhau trysorau ffydd Israel i bawb.'

Cyndyn iawn fu Israel ei hunan i gyflawni'r gymwynas honno ac yn hynny o beth cefnodd ar Dduw, a'i alwad iddi i gyfryngu bendith Abraham i'r holl genhedloedd. Nid syndod wedyn, iddi ystyried Iesu'n fygythiad gelyniaethus i geisio ymwared rhagddo.

Yng ngrym yr Ysbryd ar y Pentecost daeth yr angen hwnnw am ymwared yn gwbl eglur i'r gwrandawyr anniddig, gwaredigaeth Iesu'r Meseia i'w harbed, nid rhagddo ef, bellach, ond yn hytrach rhagddynt eu hunain. Gosodwyd posibilrwydd edifeirwch ger eu bron gyda meddylfryd newydd i'w ganlyn, a bedydd wedyn, yn fynedfa i fywyd y Deyrnas y mae Iesu'r Galilead, yn ben a brenin arni.

### Beth a wnawn ni?

I ni Gristnogion, â meddylfryd yr Anghydffurfiaeth dorfol, rymus ac awdurdodol honno'n dal i ymaflyd ynom, a'n methiant i'w bwydo a'i chynnal yn ein cyson ddifa, mor braf clywed am waith yr Ysbryd trwy actau'r Apostolion yn cywiro ac ailosod galwad pobl Dduw trwy eu galluogi i weld, adnabod ac ymateb i Iesu.

Sylw treiddgar, y Parchg William Barber II, gweinidog a diwinydd, etifedd Martin Luther King yn y frwydr dros hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol yn America, yw bod llawer o Gristnogion ei wlad 'yn rhoi cymaint o egni ac adnoddau ac amser i drafod materion cwbl ymylol yng ngweinidogaeth Iesu tra'n gwthio i'r cyrion eithaf faterion gafodd sylw amlwg a chanolog ganddo.'

Gelwir arnom i ddilyn Iesu o Nasareth, yr un, chwedl Llyfr yr Actau, 'yr eneiniodd Duw ef â'r Ysbryd Glân ac â nerth. Aeth ef oddi amgylch gan wneud daioni ac iachau pawb oedd dan ormes diafol, am fod Duw gydag ef.' (Actau 10:38).

Ysbryd y Tragwyddol Dduw, ddisgyn arnom ni.

**Dyfrig Rees**


## Gweithiwr Ieuenctid a Swyddog Datblygu Ymestyn Allan

### Eglwys Gymraeg Canol Llundain

Mae Eglwys Gymraeg Canol Llundain, Oxford Circus, yn chwilio am unigolyn brwdfrydig, egnïol ac ymroddedig sy'n arddel ffydd Gristnogol i ymuno â ni fel Gweithiwr Ieuenctid a Swyddog Datblygu Ymestyn Allan.

Bydd y rôl yn cynnig cyfle cyffrous i gryfhau a meithrin perthynas â phobl ifanc Cymraeg eu hiaith sy'n byw yn Llundain, gan eu cefnogi a'u hannog i ymgysylltu â bywyd yr eglwys a'r gymuned Gristnogol ehangach.

Swydd fydd hon am gyfnod cychwynnol o 12 mis, gydag adolygiad perfformiad ar ôl 6 mis. Bydd y termau cyflogi i'w drafod yn ôl cymwysterau a phrofiad.

**Dyddiad dechrau: Medi 2026**

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 13 Gorffennaf 2026**

Am fwy o fanylion, swydd-ddisgrifiad llawn a ffurflen gais, cysylltwch â'r gweinidog,

y Parchg Robert Nicholls: rob.nicholls75@gmail.com

## Barn Annibynnol

# Ymgyrch Glandeg

Yng nghyfarfodydd blynyddol yr Undeb, lansiwyd ymgyrch Glandeg gan y Rhwydwaith Merched. Y bwriad? Annog eglwysi i hel nwyddau hylendid a harddwch er mwyn eu dosbarthu i'r rhai sy'n byw mewn tlodi.

glandeg
RHWYDWAITH MERCHED

### Hedyn syniad yn tyfu

Golygydd harddwch i bapur y *Guardian* yw Sali Hughes (a addysgwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgol gyfun Cwm Rhymni, Caerffili). Yn 2018, wrth ymweld â chanolfan Huggard yng Nghaerdydd, fe sylwodd ar focs mawr o nwyddau hylendid. Holodd y staff, a synnodd o ddeall fod miliynau o bobl yn dyheu am deimlo'n lân!

Y cam nesaf oedd trafod y mater gyda'i ffrind, Jo Jones (swyddog cysylltiadau cyhoeddus ym myd harddwch). Roedd hithau, o glywed, wedi'i chynddeiriogi. A dyna esgor ar elusen Beauty Banks.

Llwyddodd y ddwy i berswadio rhai o'r cwmnïau mawr, a gwirfoddolwyr unigol, i gyfrannu nwyddau i elusennau lleol. Cyfrannodd Stacey Solomon (cantores/cyflwynydd teledu) gyflog un o'i chytundebau gwaith yn gyfan. A chludwyd, am y tro cyntaf, llond trol (neu fan wen!) o nwyddau hylendid yr holl ffordd o Dde Lloegr … gredwch i i ble? I Gaerffili, Pontypridd, Port Talbot ac Abertawe!

Cred syml sydd gan Beauty Banks – na ddylai neb orfod dewis rhwng bwyta a bod yn lân, bod glendid yn hawl dynol, ac y dylai pawb allu cofleidio hunanwerth a hunanhyder. Erbyn hyn, mae gan yr elusen nifer o warysau llawn cynnyrch sy'n cyflenwi nifer fawr o elusennau lleol ledled y wlad, yn cynnwys nifer yma yng Nghymru. Dyna dda, ie, ond y tristwch wrth gwrs yw bod y fath elusen ei hangen o gwbl!

### Stori Charlie

Un dydd, ar stryd brysur, cyfarfu'r triniwr gwallt, Joshua Coombe, â Charlie. Roedd Charlie yn ugain oed ac yn ddigartref. Cyn mentro ato, gwyliodd Joshua ef am ychydig a sylwi ar ei unigrwydd. Wrth sgwrsio, deallodd Joshua fod Charlie wedi'i amddifadu ers yn blentyn, yn bennaf oherwydd bod ei fam yn ddibynnol ar gyffuriau. Er bod bywyd yn anodd, roedd Charlie yn meddu ar ryw egni arbennig ac yn disgleirio wrth siarad am ei freuddwyd i fod yn gogydd. Ond ni chafodd unrhyw lwc i gael cyfweliad, heb sôn am swydd.

Yn y fan a'r lle, penderfynodd Joshua greu pecyn glendid iddo – rasel, hufen siafio, sebon, past a brwsh dannedd, ac oglau da i'w geseiliau. Yna fe drefnodd ei fod yn torri ei wallt. Y cam olaf oedd ei roi mewn cysylltiad gyda chyflogwyr posib. Fe gafodd gyfweliad ac am y tro cyntaf fe deimlodd Charlie yn hyderus a hynny am ei fod yn lân a thrwsiadus. Dyna stori brydferth a phrydferthwch yn sicr yn y rhoi. Fe welwch y gwahaniaeth yn Charlie, nid dim ond yn ei olwg a'i ymarweddiad, ond hefyd yn ei wên a'i lygaid.




### Tlodi ymysg plant

Dywedodd y brifathrawes, Nicola Finney, sydd wedi bod yn gwirfoddoli gyda Beauty Banks, fod 'tlodi yn effeithio ar hunaniaeth plant mor ifanc â phump oed, a hwythau'n sylweddoli eu bod yn wahanol pan fo plant eraill ddim eisiau ymwneud â nhw.' Dyma ichi rai o ymatebion y plant dderbyniodd nwyddau hylendid:

> Yr hylif cawod yma yw'r peth cyntaf hyfryd imi erioed ei gael.
>
> Dyma'r tro cyntaf imi deimlo'n lân a sbesial.
>
> Dwi'n gallu tynnu fy nghôt am y tro cyntaf heb boeni fy mod yn ogleuo.

Onid yw darllen eu geiriau yn tynnu deigryn i'r llygad?

### Gweithredu ffydd drwy gariad

Felly, beth allwn ni ei wneud? Mae dewis i ni fel eglwysi, gallwn gasglu nwyddau hylendid a'u cludo i'n banc bwyd lleol. Neu mae modd mynd â nwyddau hylendid i finiau casglu Beauty Banks mewn siopau Superdrug, os oes un yn eich ardal. Neu drwy eu gwefan – www.beautybanks.org.uk – gall unrhyw un gyfrannu'n ariannol. Byddai gweddi hefyd ar y mater, a thros yr ymgyrch, yn mynd ymhell, rwy'n sicr.

### Ystyriwn

Nid mater o orfod dewis nwyddau rhatach yn unig yw tlodi hylendid, ond y ffaith syml fod rhai yn methu fforddio dim! Sut fydden ni'n ymdopi â'n dydd heb y nwyddau hylendid yr ydym yn eu cymryd mor ganiataol? Sut deimlad fyddai gorfod dewis rhwng rhoi bwyd ar y bwrdd neu brynu past dannedd a sebon? A beth am yr holl gynnyrch harddwch yr ydym, ferched a dynion yn ogystal, yn eu mwynhau? Wedi'r cyfan mae minlliw, persawr, neu arogl ôl-eillio yn gallu effeithio arnom yn gadarnhaol a chodi ein hyder.

### Iesu Grist

Pe byddem yn cael y cyfle i holi Ef ar y mater, rwy'n sicr y byddai'n dal i ddweud 'câr dy gymydog fel ti dy hun' ac 'yn gymaint â'i wneuthur ohonoch i un o'r rhai hyn…i mi y gwnaethoch.'

Felly, apeliaf arnoch, oes modd ichi fel unigolion neu eglwysi i gefnogi ymgyrch Glandeg? Dewch, gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth mawr!

**Sian Meinir**

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

## SUL SBESIAL

Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

**Ysgol Griffith Jones, Sancler**

**12 Gorffennaf, 2.00**

**GOLEUNI MEWN TYWYLLWCH**

Profiadau Rhian Evans



(Rhian yn darllen y Beibl Cymraeg mewn Braille yn lansiad 2010)

Gyda gweithgarwch i'r plant, a band cyfoes yn cyfeilio'r emynau.

Paned a bisgedi ar y diwedd.

CROES CYNNES IAWN I BAWB

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Pererindod i Lanwrtyd a dros fynydd Epynt i Aberhonddu

Roedd capel yr Annibynwyr ynghanol tre fechan Llanwrtyd ar fin cael ei ddatgorffori a'i gau pan wnaeth aelodau Peniel a Bwlch-y-corn ger Caerfyrddin gynnal oedfa yno yn ystod ein pererindod ddeunaw mlynedd yn ôl. Ers hynny, diolch i weledigaeth Susan Price, cyn-ysgrifennydd yr achos a chriw o bobl leol, cafodd yr adeilad ei droi'n ganolfan treftadaeth a chelfyddydau arbennig iawn. Mae arddangosfeydd rhyngweithiol yn y capel sydd wedi ei foderneiddio yn rhagorol. Mae modd gweld twf 'tref leiaf Cymru' a mannau allweddol ei hanes, a gwrando ar recordiadau o atgofion trigolion lleol o oes sydd nawr wedi darfod.



## Troi'r capel yn ganolfan

Ar ôl i ni ganu'r emyn 'Wel dyma hyfryd fan i droi at Dduw' fe gafwyd cyflwyniad hynod ddiddorol gan Susan am hen hanes capeli'r ardal, a'r broses hir o droi'r capel yn ganolfan i ymwelwyr ac i'r gymuned leol i gynnal gweithgarwch cerddorol, gwaith celf ac yn y blaen. Cynhelir ambell oedfa yno o hyd ar achlysuron arbennig. Saif y capel ar godiad tir yn wynebu'r briffordd trwy Lanwrtyd. Mae'n werth galw yno. Mae mynediad am ddim, a'u gwefan yw: history-arts-wales.org.uk/cy/canolfan-ymwelwyr

## Ymbil am heddwch ynghanol y maes milwrol

O Lanwrtyd fe wnaeth Arwel y gyrrwr bws, sy'n aelod ym Mheniel, fynd â ni dros Fynydd Epynt, sydd wedi bod yn faes tanio milwrol anferth ers 1940. Bryd hynny cafodd dros 200 o bobl eu troi allan o 54 o ffermydd, gan chwalu cymuned Cymraeg ei hiaith oedd ag ysgol a chapel. Wrth ochr y ffordd i Aberhonddu mae canolfan fechan ymwelwyr yr Epynt. Yno, ar brynhawn braf yn nhawelwch y bryniau, fe wnaethom aros i glywed rhywfaint o'r hanes o lyfr y diweddar Ronald Davies, oedd yn cofio ymweld â'r ardal gyda'i dad-cu pan ddaeth y diwedd. Yna, fe wnes i draddodi gweddi i ymbil am heddwch, cyn i bawb ganu emyn Eifion Wyn 'Efengyl Tangnefedd, O rhed dros y byd.'

## Profiad newydd

Wedi cyrraedd Aberhonddu, cafwyd egwyl am goffi a hufen ia yng nghaffi Theatr Brycheiniog ar lan y gamlas, cyn mynd i'r eglwys gadeiriol ar gyfer yr hwyrol weddi. Roedd hyn yn brofiad newydd i'r rhan fwyaf o'n haelodau ni, ac roedd y côr yn creu naws hyfryd yn yr hen gadeirlan. Daeth y bererindod i ben gyda swper yn y White Hart yn Llandeilo. Bu'n ddiwrnod amrywiol a hapus iawn, gyda phawb wedi mwynhau'r daith a'r gwmnïaeth.

**Alun Lenny**





*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*